Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Ystadegau Recriwtio

22 Medi 2016

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch i chi am eich cais, a ddaeth i law ar 26 Awst, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

*Ar gyfer y tair blynedd ariannol ddiwethaf:*

- *Nifer yr ymarferion recriwtio allanol y mae'r Cynulliad wedi'u cynnal*
- *Nifer yr ymgeiswyr ar gyfer pob ymarfer allanol*
- *Canran (neu nifer) yr holl ymgeiswyr allanol a oedd yn wryw, yn fenyw neu'n nodi bod ganddynt rywedd anneuaidd*
- *Canran (neu nifer) yr holl ymgeiswyr allanol a oedd yn llwyddiannus yn y sifft gyntaf a oedd yn wryw, yn fenyw neu'n nodi bod ganddynt rywedd anneuaidd*
- *Canran (neu nifer) yr holl ymgeiswyr allanol a benodwyd i'r swydd a hysbysebwyd a oedd yn wryw, yn fenyw neu'n nodi bod ganddynt rywedd anneuaidd*

*A gwybodaeth debyg ar gyfer ymarferion recriwtio mewnol.*

Gweler y tabl gwybodaeth canlynol, yn seiliedig ar y daenlen y gwnaethoch ei hanfon atom.

Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at y canlynol:

1. Nid yw anneuaidd yn derm a ddefnyddir ar ein ffurflenni Monitro Cyfle Cyfartal. Mae dewis i ymgeiswyr nodi y byddai'n 'well ganddynt beidio â dweud' neu ddefnyddio eu disgrifiad eu hunain. Fodd bynnag, ar gyfer cyflogeion presennol rydym yn cadw data am rywedd fel gofyniad ar gyfer adrodd ar y gyflogres i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

defnyddiwyd y wybodaeth hon mewn perthynas ag ymgeiswyr mewnol isod.

2. Ym mis Awst eleni fe'i gwnaethpwyd yn orfodol gennym i bob ymgeisydd, mewnol ac allanol, gwblhau ffurflenni monitro cyfle cyfartal.

| Blwyddyn Ariannol | Nifer yr Ymarferion Recriwtio Allanol | Cyfanswm yr Ymgeiswyr | Y nifer y mae gennym wybodaeth am eu rhywedd | Manylion am yr Ymgeiswyr | | | Manylion am yr ymgeiswyr a oedd yn llwyddiannus yn y sifft | | | Manylion am yr ymgeiswyr a benodwyd i swyddi | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwryw | Benyw | Gwell ganddynt beidio â dweud | Gwryw | Benyw | Gwell ganddynt beidio â dweud | Gwyrw | Benyw | Gwell ganddynt beidio â dweud |
| **2015-16** | 69 | 1427 | 868 | 456 | 438 | 47 | 72 | 91 | 13 | 19 | 20 | 5 |
| **2014-15** | 62 | 739 | 630 | 227 | 210 | 56 | 49 | 61 | 22 | 6 | 17 | 3 |
| **2013-14** | 54 | 945 | 870 | 466 | 346 | 17 | 96 | 109 | 3 | 20 | 21 | 1 |

| Blwyddyn Ariannol | Nifer yr Ymarferion Recriwtio Mewnol | Cyfanswm yr Ymgeiswyr | Y nifer y mae gennym wybodaeth am eu rhywedd | Manylion am yr Ymgeiswyr | | | Manylion am yr ymgeiswyr a oedd yn llwyddiannus yn y sifft | | | Manylion am yr ymgeiswyr a benodwyd i swyddi | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Male | Female | Non-binary | Male | Female | Non-binary | Male | Female | Non-Binary |
| **2015-16** | 55 | 143 | 143 | 64 | 79 | | 33 | 46 | | 28 | 32 | |
| **2014-15** | 48 | 162 | 162 | 64 | 98 | | 35 | 60 | | 18 | 28 | |
| **2013-14** | 45 | 157 | 157 | 67 | 90 | | 33 | 43 | | 18 | 22 | |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF